DEPARTMENT OF ENERGY & CLIMATE CHANGE

DEDDF YNNI 2008

Ymgynghoriad ar Ganllawiau diwygiedig Rhaglen Ddigomisiynu wedi'i Hariannu ar gyfer Gorsafoedd Ynni Niwclear Newydd

Rhagfyr 2010

Cyflwyniad i'r ymgynghoriad hwn ynghyd â'i gefndir

1. Ym mis Chwefror 2008 cyhoeddodd y Llywodraeth Ganllawiau drafft ar yr hyn y dylai Rhaglen Ddigomisiynu wedi'i Hariannu (FDP) y gellir ei chymeradwyo ei gynnwys at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus[1]. Cafwyd cyfanswm o 43 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol i'r ymgynghoriad[2]. Ymhlith y rheini a ymatebodd roedd: cyflenwyr ynni; sefydliadau o'r diwydiant niwclear; sefydliadau amgylcheddol; sefydliadau o'r sector cyhoeddus; sefydliadau cynghorol; unigolion a phartïon eraill â diddordeb.

2. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth ym mis Medi 2008[3]. Ar y cyfan roedd y sylwadau a ddaeth i law yn cefnogi'r cynigion ac ystyriwyd eu bod, at ei gilydd, yn ffordd synhwyrol ac ymarferol ymlaen. Ers 2008 bu rhai datblygiadau sylweddol o ran y fframwaith y mae'r Llywodraeth yn ei gyflwyno i ariannu gwaith digomisiynu, rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff - mae Deddf Ynni 2008 wedi dod i rym[4] ac mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar Reoliadau drafft a Gorchymyn drafft[5] yn deillio o'r Ddeddf[6]. Hefyd mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar fethodoleg ar gyfer prisio'r broses o drosglwyddo teitl i wastraff lefel ganolradd (ILW) a gweddillion tanwydd oddi wrth weithredwr niwclear newydd ynghyd â'r atebolrwydd am hynny i'r Llywodraeth[7].

3. Yn ogystal â hynny, yn ystod y cyfnod hwn, mae'r darpar weithredwyr niwclear wedi bod yn datblygu eu dull eu hunain o ymdrin â'r FDP wrth i'w cynlluniau datblygu esblygu. Mae'r Llywodraeth wedi cynnal trafodaethau â'r tri darpar gonsortia niwclear newydd - NNB GenCo (cyd-fenter rhwng EDF a Centrica), Horizon Nuclear Power (cyd-fenter rhwng E.ON UK ac RWE npower) a NuGeneration Ltd (cyd-fenter rhwng Iberdrola, GDF Suez ac SSE). Diben y trafodaethau hyn oedd pennu a oedd ganddynt safbwyntiau newydd neu wahanol ers iddynt ymateb i'r ymgynghoriad blaenorol yn 2008, o ganlyniad i waith paratoi'r consortia cyn cyflwyno FDP. Gofynnwyd i'r tri chonsortiwm ysgrifennu atom yn dilyn y trafodaethau hyn gan fanylu ar eu safbwyntiau.

---

[1] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.berr.gov.uk/files/file44486.pdf
[2] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090103073128/http:/www.berr.gov.uk/energy/sources/nuclear/consultations/closed-response/fdp-responses/page48057.html
[3] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.berr.gov.uk/files/file47629.pdf
[4] http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/legislation/energy_act_08/energy_act_08.aspx
[5] Daeth Gorchymyn Digomisiynu Niwclear a Thrin Gwastraff (Materion Technegol Dynodedig) 2010 (OS 2010/2850) i rym ar 30 Tachwedd 2010.
[6] http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc_dec_fin/nuc_dec_fin.aspx
[7] http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/waste_trans/waste_trans.aspx

Rydym wedi cyhoeddi'r llythyrau hyn ochr yn ochr â'r Canllawiau diwygiedig[8]. Yn sgîl yr ystyriaethau hyn penderfynodd y Llywodraeth ei bod yn ddymunol ymgynghori â'r cyhoedd ymhellach.

4. Er nad ystyrir bod y newidiadau a wnaed i'r Canllawiau ers ymgynghoriad 2008 yn ddigon arwyddocaol i esgor ar lawer o faterion newydd, mae posibilrwydd y gall y newidiadau a wnaed beri i randdeiliaid leisio barn newydd neu wahanol i'r hyn a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad blaenorol yn 2008.

5. Disgwylir i'r Canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2011 a byddant yn helpu gweithredwyr i ddeall eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Ynni 2008. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd feddu ar FDP, sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, cyn y gellir dechrau adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r rhaglen hon wedi hynny.

6. Ni fwriedir i'r Canllawiau fod yn rhy ragnodol - yn hytrach byddant yn nodi egwyddorion y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl eu gweld yn cael eu cyflawni yn yr FDP a baratoir gan weithredwr. Mae'r Canllawiau yn rhoi gwybodaeth am ffyrdd y gallai'r gweithredwr gyflawni'r egwyddorion hynny.

7. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn bydd y Llywodraeth yn ystyried diwygio p• er yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Ynni 2008 i addasu FDP gweithredwr er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiogelu'r trethdalwr ac angen y gweithredwr am eglurder o ran y modd y caiff y pwerau hyn eu harfer[9]. Efallai y bydd angen i'r Canllawiau hyn gael eu diweddaru os caiff y newidiadau hynny eu cymeradwyo.

Strwythur y Canllawiau

8. Mae Rhan 1 o'r Canllawiau hyn yn nodi'r ffactorau hynny y gall fod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo FDP, ei chymeradwyo gydag amodau, neu a ddylid diwygio FDP sydd eisoes wedi'i chymeradwyo, o dan adran 54(6) o Ddeddf Ynni 2008. Ynddi hefyd nodir Amcan cyfundrefn yr FDP a'r hyn y cyfeirir atynt fel y Ffactorau Arweiniol.

---

[8] http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/rev_fdp_guide/rev_fdp_guide.aspx
[9] http://www.decc.gov.uk/assets/decc/legislation/energybill/544-energy-security-bill-brief-nuclear-operato.pdf

9. Mae Rhan 2 o'r Canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth am y gwaith o baratoi FDP, ei chynnwys, a'r gwaith o'i diwygio a'i gweithredu o dan adran 54(5) o Ddeddf Ynni 2008.

10. Yn Rhan 2a ceir Canllawiau sy'n ymwneud â'r FDP yn ei chyfanrwydd.

11. Mae Rhan 2b yn cyflwyno'r Canllawiau Digomisiynu a Chynllun Rheoli Gwastraff (DWMP). Bydd y rhan hon o'r Canllawiau yn helpu gweithredwyr i nodi a chostio'r camau sy'n gysylltiedig â digomisiynu gorsaf ynni niwclear newydd a rheoli a gwaredu gwastraff peryglus a gweddillion tanwydd mewn ffordd y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei chymeradwyo. Bydd y Canllawiau yn cynnwys Achos Sylfaen, a fydd yn nodi ffordd realistig, glir a chyflawnadwy o amcangyfrif costau posibl digomisiynu a rheoli gwastraff.

12. Yn Rhan 2c ceir Canllawiau ar Gynllun Trefniadau Ariannu (FAP). Bydd y rhan hon o'r Canllawiau yn helpu gweithredwyr i gyflwyno cynigion ariannu derbyniol i dalu'r costau a nodir. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am y ffactorau y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl asesu'r cynigion ariannu a gyflwynir gan weithredwyr yn eu herbyn fel rhan o FDP i'w chymeradwyo o dan ddarpariaethau Deddf Ynni 2008.

13. Mae'r Canllawiau wedi cael eu strwythuro yn y fath fodd er mwyn adlewyrchu'n well y gofynion o dan adran 54(5) ac adran 54(6) o Ddeddf Ynni 2008.

14. Defnyddir nifer o dermau diffiniedig yn y Canllawiau. Ceir rhestr termau yn Atodiad C i'r Canllawiau hyn.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

15. Hoffem glywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau ariannol a sefydliadau eraill a all fod yn ymwneud ag ariannu gorsafoedd ynni niwclear newydd, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad arall neu gorff â diddordeb.

16. Wrth ymateb dylech nodi a ydych yn gwneud hynny fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n gymwys, sut y casglwyd ynghyd safbwyntiau aelodau.

Sut i ymateb

17. Ceir ffurflen ymateb yn Atodiad A.

18. Y dyddiad cau yw **8 Mawrth 2011**.

Copïau ychwanegol

19. Cewch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn am ganiatâd. Mae modd lawrlwytho fersiwn electronig o wefan DECC[10].

20. Gellir gofyn am ragor o gopïau caled o'r ddogfen ymgynghori drwy gysylltu â:

    Publications Orderline, ADMAIL, 528, London SW1W 8YT
    Ffôn: 0845-015 0010
    Ffacs: 0845-015 0020
    Minicom: 0845-015 0030

Cyfrinachedd a diogelu data

21. Efallai y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi eich ymateb. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw fod ar gael i'r cyhoedd, boed hynny'n llawn neu'n rhannol, nodwch pa wybodaeth nad ydych am iddi gael ei datgelu. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig, a gaiff ei greu gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n rhwymo'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

22. Dylech fod yn ymwybodol y gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000), Deddf Diogelu Data 1998 (Deddf 1998), a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

23. Os ydych am i wybodaeth a roddwyd gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, o dan Ddeddf 2000, y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill.

24. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio pam rydych o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y cynhelir cyfrinachedd ymhob achos.

25. Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf 1998 ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

---

[10] http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/rev_fdp_guide/rev_fdp_guide.aspx

Help gydag ymholiadau

26. Ceir copi o feini prawf cod ymarfer ymgynghoriad yn Atodiad B.

27. Dylech anfon unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad at y cyfeiriad e-bost isod: decomguidance@decc.gsi.gov.uk neu ysgrifennwch at y cyfeiriad a roddir yn Atodiad A.

28. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad (yn wahanol i sylwadau am y materion a godir yn yr ymgynghoriad), dylech eu hanfon at Gydgysylltydd Ymgynghori DECC:

    DECC Consultation Co-ordinator
    3 Whitehall Place
    London
    SW1A 2AW
    E-bost: consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk

Y camau nesaf

29. Disgwyliwn gyhoeddi'r Canllawiau terfynol yn ystod gwanwyn 2011. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth lunio'r Canllawiau terfynol.

Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad

30. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gwestiynau'r ymgynghoriad a restrir isod. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadl a thystiolaeth yn hytrach na datganiadau syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad. Wrth ateb y cwestiynau hyn eglurwch eich atebion a rhowch resymau drostynt.

Cwestiynau'r ymgynghoriad	
1	A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Canllawiau drafft yn nodi'r hyn y dylai Rhaglen Ddigomisiynu wedi'i Hariannu y gellir ei chymeradwyo ei gynnwys er mwyn sicrhau bod gweithredwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd yn (i) amcangyfrif costau posibl digomisiynu, rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff (h.y. y materion technegol dynodedig) ac yn (ii) darparu ar gyfer cyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd ddarbodus? Beth yw'ch rhesymau?

2	A yw'r Canllawiau drafft yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi gweithredwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd i ddeall y materion y dylai eu Rhaglenni Digomisiynu wedi'u Hariannu eu cynnwys?

Disgrifiad o'r newidiadau allweddol a wnaed i'r Canllawiau ers ymgynghoriad 2008

31. Ers cyhoeddi'r Canllawiau drafft at ddiben ymgynghoriad ym mis Chwefror 2008 gwnaed newidiadau i ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad 2008, gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan ddiwydiant ac i adlewyrchu gwaith pellach ar fireinio'r polisi.

32. Mae'r Canllawiau hefyd wedi cael eu hailstrwythuro er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng y canlynol yn gliriach:

    a) y ffactorau hynny y gall fod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo FDP, ei chymeradwyo gydag amodau, neu a ddylid diwygio FDP sydd eisoes wedi'i chymeradwyo, o dan adran 54(6) o Ddeddf Ynni 2008 (Rhan 1 o'r Canllawiau); a

    b) Canllawiau pellach sy'n llawn gwybodaeth a wneir o dan adran 54(5) o Ddeddf Ynni 2008 ynghylch paratoi, diwygio a gweithredu FDP ynghyd â'i chynnwys (Rhan 2 o'r Canllawiau hyn).

33. Bwriedir i'r Canllawiau fod yn seiliedig ar egwyddorion yn hytrach na bod yn rhagnodol a'r nod yw y bydd rhai o'r newidiadau a wnaed ers ymgynghoriad 2008 yn cyflawni hyn. Drwy ddiwygio'r Canllawiau i fod yn llai rhagnodol mewn mannau, caiff gweithredwyr mwy o hyblygrwydd i gyflwyno dulliau gweithredu amgen tra'n parhau i gyflawni'r Amcan a chydymffurfio â'r Ffactorau Arweiniol a nodir yn Rhan 1 o'r Canllawiau.

34. Fel y nodir uchod, mae'r Canllawiau wedi cael eu hailstrwythuro ac mae'r drafftio mewn sawl adran wedi cael ei ddiwygio. Argymhellwn felly, lle y bo'n bosibl, y dylai ymgyngoreion ddarllen y Canllawiau diwygiedig (neu o leiaf y rhannau hynny sydd o ddiddordeb arbennig iddynt) yn llawn. Mae'r newidiadau sylweddol a wnaed ers ymgynghoriad 2008 yn cynnwys y canlynol:

    - Roedd y Canllawiau drafft a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghoriad yn 2008 yn nodi bod yn rhaid i'r Gronfa fod yn annibynnol ar y gweithredwr gan olygu "na ellir rheoli *unrhyw agwedd* ar y strwythur na'r broses o

lywodraethu neu weithredu'r Gronfa" (ychwanegir y pwyslais) ac y dylai'r trefniadau llywodraethu sicrhau nad oes gan y gweithredwr unrhyw ddylanwad dros y Gronfa. Nid yw'r gofyniad hwn yn gyson â rhannau eraill o'r Canllawiau, yn enwedig y gallu i weithredwr benodi lleiafrif o gyfarwyddwyr y Gronfa. Mae'r Canllawiau hyn yn cynnwys gofynion diwygiedig o ran annibyniaeth ac yn canolbwyntio ar reolaeth y gweithredwr (yn hytrach na'i ddylanwad) dros y Gronfa. Mae'r Canllawiau diwygiedig hefyd yn ei gwneud yn gliriach nad yw'r gofyniad i'r Gronfa fod yn annibynnol ar y gweithredwr yn atal y gweithredwr rhag meddu ar gyfran leiafrifol o'r Gronfa.

- Gall gweithredwyr ddymuno datblygu nifer o safleoedd a gall elfennau allweddol a diogelwch a ddarperir mewn FAP (fel rhan o FDP) ar gyfer pob safle fod yn dra chysylltiedig. Mae'r Canllawiau diwygiedig yn nodi y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl cymeradwyo FDPs dilynol ar gyfer safleoedd eraill yn unol â thelerau sy'n gyson â'r FDP gyntaf gan y gweithredwr hwnnw, lle y gall y gweithredwr ddangos bod trefniant o'r fath yn fuddiol er mwyn cyflawni'r Amcan (gweler yr adran sy'n trafod Gweithredu ar sail Fflyd yn Rhan 1 o'r Canllawiau).

- Methodd y Canllawiau drafft a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghoriad yn 2008 â chydnabod y gallai cryn dipyn o orariannu ddigwydd. Os bydd y Gronfa yn uwch na'i Gwerth Targed, mae'r Canllawiau bellach yn ei gwneud yn bosibl i ddychwelyd asedau dros ben yn ystod oes y Gronfa os yw'n ddarbodus gwneud hynny a'i fod yn unol â'r FDP a gymeradwywyd.

- Mae'r Canllawiau diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i rywun sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa i osgoi unrhyw sefyllfa lle mae gan yr unigolyn hwnnw fuddiant sydd *mewn ffyrdd perthnasol* yn gwrthdaro â dyletswyddau'r Gronfa (ychwanegir y pwyslais). Heb bennu trothwy perthnasedd credai diwydiant y byddai'n rhy anymarferol cydymffurfio â'r prawf oherwydd, yn ymarferol, mae'r diwydiant niwclear yn gymharol fach.

- Mae'r Canllawiau diwygiedig yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran y trefniadau sy'n bodoli rhwng y Gronfa a'r gweithredwr. Gall y Gronfa, er enghraifft, bennu *neu gymeradwyo* (ychwanegir y pwyslais) yr atodlen ar gyfer cyfraniadau'r gweithredwr i'r Gronfa, a thrwy hynny alluogi'r gweithredwr i ddarparu'r atodlen cyfraniadau i'w chymeradwyo gan y Gronfa, yn hytrach na gofyn i'r Gronfa ei phennu heb i'r gweithredwr fynegi barn.

- Mae'r Canllawiau diwygiedig yn cynnwys sicrwydd o ran llifau arian o'r safle fel mesur diogelwch ychwanegol a all gael ei ddarparu er mwyn lliniaru'r risg na fydd y Gronfa'n ddigonol. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i weithredwr mwyach weithio gyda'r diwydiant ariannol ac yswiriant i ddatblygu adnoddau ariannol neu yswiriant lle nad oes cynhyrchion ar gael ar hyn o bryd yn y farchnad (gweler yr adran ar Ddiogelu rhag Cronfa annigonol yn Rhan 2c o'r Canllawiau).

- Mae'r Canllawiau diwygiedig bellach yn egluro y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw sefyllfa lle mae cwmni cysylltiedig gweithredwr yn peidio â bod yn gwmni cysylltiedig mwyach, er y gall yr FDP nodi amgylchiadau lle nad oes angen i'r Ysgrifennydd Gwladol gael gwybod am newid o'r fath (gweler yr adran ar Newid perchenogaeth neu reolaeth y gweithredwr neu safle yn Rhan 2a o'r Canllawiau).

- Mae Canllawiau DWMP (a nodir yn Rhan 2b o'r Canllawiau) wedi cael eu diwygio i sicrhau gwell eglurder a lleihau ailadrodd. Nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi'r Canllawiau drafft at ddiben ymgynghoriad yn 2008. Er enghraifft, mae'r Canllawiau diwygiedig yn darparu mwy o wybodaeth am gwmpas, strwythur a manylder disgwyliedig DWMP, ac yn nodi'n gliriach y gwahaniaeth rhwng y "materion technegol" a'r "materion technegol dynodedig" o dan Ddeddf Ynni 2008.

- Mae Canllawiau DWMP hefyd yn ei gwneud yn glir, er bod yr Achos Sylfaen yn nodi'r prif bwyntiau y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl i DWMP fynd i'r afael â hwy, y bydd hyblygrwydd i weithredwyr gynnig opsiynau amgen a cheisio cymeradwyaeth ar eu cyfer. Er enghraifft, bydd yn bosibl i weithredwyr gyfiawnhau hyd oes amgen ar gyfer gorsafoedd o gymharu â'r dybiaeth a geir yn yr Achos Sylfaen mai 40 mlynedd yw oes weithredol gorsaf. Pa hyd oes bynnag a gynigir, rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod ei FDP yn gadarn rhag y risg bod yn rhaid digomisiynu'r safle yn gynt na phryd.

35. Ynghyd â'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth hefyd yn cyhoeddi "Ymgynghoriad ar Fethodoleg Prisio Trosglwyddo Gwastraff ddiwygiedig ar gyfer prisio gwaredu gwastraff uchel ei actifedd o orsafoedd ynni niwclear newydd"[11].

[11] http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/waste_trans/waste_trans.aspx